**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 6 Tachwedd, 2017**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 9 Tachwedd, 2017. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 16 Tachwedd, 2017. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 17 Tachwedd 2017.

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr R. Dew, John Griffith, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE, FRAgS, Ieuan Williams, Alun W. Mummery a Carwyn Jones.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Eric Jones, Bryan Owen.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

(10:00 – 10.35 a.m.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Cynllun Ymgynghori Cyllideb 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo’r Cynllun Ymgynghori ar y Gyllideb am 2018/19 ar gyfer ei weithredu yn ystod y cyfnod o’r wythnos yn cychwyn 6 Tachwedd 2017 hyd at 29 Rhagfyr 2017.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Hwyluso’r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2018/19** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward yng Ngwynedd 2018/2028**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cytuno bod Cyngor Sir Ynys Môn yn llofnodi Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Safleoedd Treftadaeth y Byd ar gyfer Cestyll a Muriau Trefi’r Brenin** |

| | |
|---|---|
| | **Edward 2018 i 2028 mewn perthynas â Chastell Biwmares.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adnewyddu ymrwymiad yr Awdurdod i'r cynllun mewn perthynas â Chastell Biwmares** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cyllideb Refeniw Ddrafft 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Bod swm o £125k yn cael ei gynnwys yn y gyllideb derfynol i gyllido'r Tîm Ynys Ynni a bod y swm hwn yn cael ei gadw yn y gyllideb am y cyfnod y bydd angen y Tîm fel y nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad.**<br><br>• **Bod y grantiau sydd wedi eu hymgorffori yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a'r cyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd yn cael eu dyrannu i'r cyllidebau priodol fel y caniatawyd ar gyfer hynny yn y gyllideb ddisymud yn unol â pharagraffau 5.4 a 5.5 yr adroddiad;**<br><br>• **Cadarnhau bod angen cyllideb wrth gefn o £600k i dalu unrhyw gostau tâl ychwanegol (fel y caniatawyd ar ei gyfer yn y gyllideb ddisymud). Adolygu gwerth y gronfa wrth gefn hon cyn penderfynu ar y cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol (paragraff 6.1 yr adroddiad);**<br><br>• **Ymgynghori gyda'r cyhoedd ynghylch cynnydd ychwanegol o 1% yn y Dreth Gyngor uwchlaw'r cynnydd o 4% sydd wedi ei bennu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol a bod y cyllid yn cael ei roi o'r neilltu i gyllido'r pwysau ychwanegol sydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â pharagraff 6.5 yr adroddiad;**<br><br>• **Cymeradwyo'r gyllideb ddisymud o £132.337m ar gyfer 2018/19 ac y dylai hyn fod yn sail ar gyfer cyllideb refeniw** |

| | |
|---|---|
| | **2018/19 (paragraff 7.1 yr adroddiad);**<br><br>• **Bod y swm a neilltuwyd i brosiectau tai drwy'r premiwm ar gyfer tai gwag ac ail gartrefi yn aros ar yr un lefel â 2017/18 yn unol â pharagraff 9.2 yr adroddiad);**<br><br>• **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2018/19 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb orfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac er mwyn sicrhau bod yr arbedion y mae angen eu gwneud yn 2019/20 yn gyraeddadwy (paragraff 9.6 yr adroddiad);**<br><br>• **Bod y Pwyllgor Gwaith yn ceisio barn y cyhoedd ar yr arbedion arfaethedig ac yn gofyn am awgrymiadau ar gyfer cynhyrchu incwm.**<br><br>• **Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ei ymateb i'r datganiad ar y setliad refeniw dros dro yn gofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y swm a fydd yn cael ei ddyrannu i Ynys Môn o'r £42m a'r £62m sydd wedi ei neilltuo ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol yn y drefn honno.**<br><br>• **Bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi pryderon y Pwyllgor Gwaith ynghylch diffyg tryloywder mewn perthynas â'r gostyngiad mewn rhai grantiau cyfalaf a fydd yn cael sgil-effaith ar y gyllideb refeniw, e.e. gwastraff a thrafnidiaeth ynghyd â diffyg eglurder o ran y cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer elfennau ysgol a gofal cymdeithasol y cyfeirir atynt uchod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r rhagdybiaethau cyllidebol fel sylfaen ar gyfer Cyllideb Refeniw 2018/19** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |